**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Dachwedd 27ain, 2009 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Everett (Clerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Gwasanaethau Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A D Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 ENWEBU CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD

1.1 Agorodd y Clerc y cyfarfod, a gofyn am enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor. Enwebwyd ac eiliwyd y Cyng. E C George yn gadeirydd, ac enwebwyd ac eiliwyd y Cyng. D Barratt yn is-gadeirydd.

1.2 **PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd E C George yn gadeirydd a'r Cynghorydd D Barratt yn is-gadeirydd, yn amodol ar gadarnhau hynny yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar Ragfyr 21ain.**

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 CYLCH GORCHWYL

3.1 Atgoffwyd y pwyllgor gan y Clerc fod y cylch gorchwyl wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Sefydlwyd y Pwyllgor Archwilio yn dilyn argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd cynllunio 3-4 gwaith y flwyddyn, yn seiliedig ar gynllun gwaith wedi ei drefnu.

4 HYFFORDDIANT AR RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

4.1 Roedd yr aelodau wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ar archwilio ar Hydref 19eg. Rhoddodd Mike Halstead wybod i'r aelodau fod ei gyflwyniad yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â'r datganiad llywodraethu blynyddol.

4.2 Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn dod yn lle'r datganiad ar reolaeth fewnol, ac mae ei gwmpas yn ymestyn i'r modd y mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, yn fewnol, ac wrth ddelio ag eraill. Mae'n ddogfen gorfforaethol allweddol, a'r Prif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod sy'n gyd-gyfrifol fel llofnodwyr am ei chywirdeb a'i chyflawnder.

4.3 Bydd y datganiad llywodraethu blynyddol yn barod i'w archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn gynnar ym mis Mehefin, a bydd rhannau ohono ar gael ar gyfer y cyfarfod ym mis Mawrth.

4.4 Y chwe egwyddor graidd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw:

- diben yr Awdurdod, a'i ganlyniadau i'r gymuned
- yr aelodau a'r swyddogion yn gweithio ac yn rhannu diben cyffredin, gyda rolau a swyddogaeth wedi eu diffinio'n glir
- hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod; safonau uchel o ran ymddygiad ac ymarweddiad
- penderfyniadau gwybodus a thryloyw, yn agored i graffu effeithiol a rheoli risg
- datblygu gallu a galluogrwydd yr aelodau a'r swyddogion
- meithrin perthynas â'r gymuned a wasanaethir, er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

4.5 Nodwyd nad oes angen i'r Pwyllgor Archwilio gael gweithdrefn 'galw i mewn', gan mai'r Panel Gweithredol sy'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

4.6 Bydd y Pwyllgor Archwilio'n dymuno bod yn fodlon fod:

- y prif risgiau o ran cyflawni'r amcanion wedi eu hadnabod
- y rheolaethau allweddol ar gyfer rheoli'r risgiau wedi cael eu hadnabod
- wedi eu sicrhau bod y rheolaethau allweddol yn gweithio, a'u bod yn effeithiol
- yn cael gwybod am, ac yn monitro, cynlluniau gweithredu er mwyn ymdrin â gwendidau/bylchau o ran rheolaeth a sicrwydd.

4.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y bydd y gwaith tuag at y datganiad llywodraethu blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth.**

5 SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (*INTERNATIONAL FINANCIAL REPORTING STANDARDS (IFRS)*)

5.1 Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar y safonau newydd o ran adrodd ariannol. Mae'r Safonau'n golygu newid sylfaenol yng ngwaith adrodd ariannol Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Bydd angen i'r aelodau gael gwybod am gynllun prosiect y Safonau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'u rôl yn y cynllun.

5.2 Nod y Safonau yw cysoni'r ffyrdd i adrodd yn ariannol mewn byd lle ceir masnachu a buddsoddi ar draws ffiniau, a globaleiddio cynyddol, a'r prif nod yw y bydd cyfrifon yn cael eu llunio'r un fath drwy'r byd. Disgwylir i Awdurdodau Lleol fabwysiadu'r rheolau'n llwyr erbyn cyfrifon 2010/11. Yn y Deyrnas Unedig, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Llywodraeth Ganolog wedi mabwysiadu'r rheolau'n llwyr o 2009/10 ymlaen, a hyd yn hyn, mae dros 100 o wledydd, o Ganada i Tsieina, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus yn Awstralia a Seland Newydd, wedi mabwysiadu'r rheolau.

5.3 Mae'r prif newidiadau'n effeithio ar adeiladau Menter Cyllid Preifat (nid oes yr un gan yr Awdurdod), cyfrifyddu cydrannol, prydlesau a buddion gweithwyr. Gallai'r olaf o'r rhain gostio i'r Awdurdod, ond, rhagwelir y bydd y Cynulliad yn cyhoeddi rheoliadau i osgoi unrhyw effaith ar refeniw Awdurdodau Lleol. Fe fydd, hefyd, rai newidiadau i'r prif ddatganiadau yn y Datganiadau o Gyfrifon.

5.4 Rôl y Pwyllgor Archwilio yn y dasg o roi'r Safonau ar waith fydd cymeradwyo'r polisïau cyfrifyddu diwygiedig a'r fantolen drosiannol erbyn Mawrth 31ain, 2010. Bydd yr aelodau'n derbyn adroddiad yn asesu effaith y newidiadau yn y Safonau ar gyfrifon y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn ogystal ag adroddiad ar gynllun y prosiect, a hynny er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyn adroddiad pellach ynglŷn â goblygiadau'r safonau newydd.**

6 BLAENGYNLLUN GWAITH

6.1 Cyflwynwyd blaengynllun gwaith yn y cyfarfod er mwyn i'r Aelodau ei ystyried.

6.2 **PENDERFYNWYD y byddai'r swyddogion yn cwblhau'r blaengynllun gwaith yn derfynol ar gyfer 2010, ac yn ei rannu â'r aelodau'n ddiweddarach.**